# Prosiect Cymorth Cymunedol

## Disgrifiad Rôl Gwirfoddolwr

Mae Rhaglen Cymorth Cymunedol Age Cymru’n darparu cymorth ymarferol a chefnogaeth emosiynol i bobl hŷn.  Mae’r prosiect yn cael ei arwain gan wirfoddolwyr hyfforddedig er mwyn helpu pobl hŷn i gymryd rhan a chysylltu â'u cymuned.  Bydd y gwirfoddolwyr yn darparu cyfeillgarwch, meithrin gwydnwch, gwella hyder a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael.

Mae'r prosiect yn darparu dau wasanaeth:

- **Cynorthwyo a Chysylltu -** gwasanaeth cymorth wyneb yn wyneb yn y gymuned
- **Gwrando a Chysylltu -** gwasanaeth gwrando o bell

Mae'r ddau wasanaeth yn darparu cyfeillgarwch, cyfleoedd i sgwrsio a chefnogaeth wrth leddfu unigedd, pryder ac unigrwydd. Mae ein gwirfoddolwyr yn cynnig cefnogaeth a chymorth ymarferol i bobl leol sydd angen ychydig o gymorth ychwanegol.

Mae ein rolau gwirfoddoli yn ffordd wych o gymryd rhan a chefnogi eich cymuned leol.  Mae digonedd o ddewis o ran y tasgau fyddwch chi’n eu gwneud, yn cynnwys ymweld â phobl sy'n ynysig ac sydd angen ychydig o gymorth ychwanegol gartref, bod yn barod i wrando arnynt dros y ffôn, hebrwng pobl hŷn i grwpiau cymunedol neu glybiau cymdeithasol lleol, a llawer mwy.

Rydym yn helpu pobl i ddod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio eu sgiliau, eu doniau a'u hamser er mwyn cefnogi pobl eraill.

Bydd y cyfleoedd sydd ar gael yn amrywio yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw ac anghenion y person hŷn.

### Dyma rai enghreifftiau o'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm â'r rôl:

- Efallai y byddwch yn cynnig eich amser a'ch cwmni i rywun sy'n byw ymhell wrth deulu a ffrindiau, a does neb ar gael i'w helpu
- Mynd am wâc fach neu ymuno â grŵp gyda'ch gilydd
- Gwrando ar syniadau'r unigolyn a rhannu straeon gyda nhw
- Galw heibio i gael paned a sgwrs, ond byddwch yn helpu i fagu eu hyder a gwella eu cysylltiadau â'u cymuned leol
- Helpu pobl yn eich cymuned sy'n methu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i aros yn heini, yn annibynnol ac yn gymdeithasol
- Efallai y byddwch yn eu gyrru i apwyntiadau ac yn ôl adref, i grwpiau cymunedol neu i'r siopau
- Gwrando ar yr unigolyn yn siarad am y pethau sy'n effeithio arnyn nhw a cheisio eu deall.

Mae'r gwahaniaeth y gallwch ei wneud wrth gynnig ychydig o oriau bob wythnos yn anhygoel. Beth bynnag yw eich rheswm dros wirfoddoli, byddwn yn gweithio gyda chi i nodi'r cyfleoedd a all eich helpu i wireddu a chyflawni eich nodau.

Rhoddir hyfforddiant a chefnogaeth lawn gan ein tîm prosiect Cymorth Cymunedol.

I weld mwy o enghreifftiau o gyfrifoldebau, cliciwch y ddolen hon: Prif gyfrifoldebau, neu gofynnwch am fwy o wybodaeth.

## Gofynion y rôl

Fel rhan o'ch rôl, bydd angen i chi gwblhau hyfforddiant sefydlu gyda'n tîm i ddod yn wirfoddolwr Cymorth Cymunedol. Bydd angen i chi lenwi ffurflen Mynegi Diddordeb, yna, byddwn yn cysylltu â chi i drafod y rôl a'r gofynion.
Fel rhan o'r broses recriwtio, byddwn yn gofyn i chi gwblhau gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a rhoi manylion cyswllt dau ganolwr i ni.
Fel gwirfoddolwr Partneriaeth Age Cymru, gofynnir i chi gwblhau ein cytundeb gwirfoddoli a'n hyfforddiant sefydlu cyn i chi gychwyn ar y gwaith gwirfoddoli.

### Bydd angen i chi:

- gwrdd â'ch cyswllt staff Age Cymru yn rheolaidd a rhoi diweddariad am y cymorth sy'n cael ei ddarparu, gan gynnwys unrhyw bryderon
- cadw cofnodion o'ch cyfarfodydd/galwadau a chydymffurfio â rheoliadau diogelu data, gan sicrhau bod ein gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol.
- cadw at holl werthoedd, polisïau a gweithdrefnau Age Cymru.

Gallwch ennill Credydau Amser Tempo fel diolch am eich amser. Gan ddefnyddio credydau amser gallwch fwynhau amrywiaeth o weithgareddau - heb wario arian! Mae’r oriau rydych chi’n gwirfoddoli yn cael eu cyfnewid am Gredydau Amser, yna rydych chi’n eu defnyddio i fwynhau gweithgareddau hwyliog gydag eraill neu i ddysgu sgiliau newydd. Siaradwch â'ch Swyddog Gwirfoddoli am hyn.